Ionwar 2016

# Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru

Cylchlythyr 6

## Cwblhau Prosiect - mae'r her yn parhau!

Cwblhawyd Rhaglen LIFE Natura 2000, prosiect mawr a gynhaliwyd rhwng 2012 a 2015, ym mis Medi 2015. Mae'r prosiect wedi datblygu blaengynllun strategol sy'n amlinellu'r gofynion ar gyfer rheoli ac adfer rhwydwaith Natura 2000 yng Nghymru. Dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, cefnogwyd y prosiect gan gronfa LIFE+ Natura yr Undeb Ewropeaidd.

## Allbynnau Allweddol

Yn ystod hynt y prosiect rydym wedi cynhyrchu:

- ***Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth (PIPs)*** ar gyfer pob un o'r 112 Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig) yng Nghymru.
- 11 ***Cynllun Gweithredu Thematig*** gyda gweithredoedd strategol ar gyfer y materion a'r risgiau blaenoriaeth sy'n effeithio ar gyfres Natura 2000, megis Llygredd Gwasgaredig, Rhywogaeth Oresgynnol a Newid Hinsawdd.
- 5 ***Cynllun Gweithredu Trawsbynciol***, gan gynnwys Cyfathrebu ac Addysg, Integreiddio ac Ariannu.
- Set o flaenoriaethau ar gyfer **Natura 2000.**
- ***Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth*** i Gymru - dogfen statudol yn crynhoi blaenoriaethau Cymru a gofynion cyd-ariannu'r Undeb Ewropeaidd.
- 13 adroddiad gan gynnwys ***Ariannu Natura 2000***, a ***Gwasanaethau Ecosystem Natura 2000.***
- Datblygiad technegol o'r ***Gronfa Ddata Gweithredoedd*** sy'n cadw'r data y mae'r Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth wedi'u seilio arnynt.
- 22 ***ffilm fer*** i rannu gwerth Natura 2000 ('Cyfoeth Naturiol sydd gan Gymru') gyda'r cyhoedd, penderfynwyr, a'r rheini o fewn sectorau eraill.


Am wybodaeth bellach ar unrhyw un o'r uchod, gweler ein gwefan **www.cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K**

## Cyfoeth Naturiol sydd gan Gymru - Ffilmiau Byr

Gellir gweld peth o'r cyfoeth naturiol sydd gan Gymru trwy glicio ar lygoden. Fel rhan o'r prosiect rydym wedi cynhyrchu cyfres o 11 o ffilmiau byr gyda phob un yn canolbwyntio ar bwysigrwydd a harddwch gwahanol gynefinoedd a rhywogaethau Natura 2000 yng Nghymru. Mae pob ffilm hefyd yn tynnu sylw at rai o'r buddion eraill y mae ein hamgylchedd naturiol yn eu darparu megis cyfleoedd hamdden, incwm o'r diwydiant twristiaeth, amddiffynfeydd rhag llifogydd a rheoli llygredd. Gellir gweld ein ffilmiau ar ein gwefan, tudalen facebook, cyfrif twitter neu sianel YouTube Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae croeso i chi rannu'r fideos ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a lledaenu'r neges i'ch ffrindiau a'ch cydweithwyr. www.facebook.com/LIFEN2K www.twitter.com/



## Crynodeb o Ganlyniadau




Mae cyfanswm o ymron i 3,600 o weithredoedd i fynd i'r afael â materion a risgiau ar Natura 2000 yng Nghymru wedi'u cofnodi ar lefel uned safle a rheoli. Ar gyfartaledd mae 32 o weithredoedd unigryw fesul safle a chyfanswm y gost a amcangyfrifir i fynd i'r afael â gweithredoedd ar draws y rhwydwaith yw tua **£120 miliwn** - gyda chyfartaledd o **£1 miliwn fesul safle.**

Y materion a risgiau a gofnodir amlaf ar safleoedd Natura 2000 yng Nghymru yw **rheoli pori a da byw, rhywogaethau goresgynnol** a **newidiadau dynol i amodau hydrolig.**

Y dulliau neu fesurau a nodir yn fwyaf cyffredinol i fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau oedd **rheoli uniongyrchol, ymchwilio** a **chytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru**.

Roedd y Rhaglen yn ymgysylltu â chydweithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid allanol a chynhaliwyd 38 o weithdai a digwyddiadau ymgysylltu rhanddeiliaid ac fe fynychodd dros 500 o bobl yn ystod hynt y prosiect. Fe wnaeth aelodau tîm hefyd fynychu dros 100 o gyfarfodydd eraill, gan gyrraedd dros 1800 o randdeiliaid.

Mae ein hadroddiad cryno, sy'n amlinellu canfyddiadau allweddol a chanlyniadau'r Rhaglen bellach wedi'i gyhoeddi. Mae copïau caled o'r adroddiad ar gael i'w dosbarthu o fewn eich sefydliad. Anfonwch e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk yn nodi sawl copi yr hoffech chi eu derbyn. Gellir lawrlwytho'r adroddiad hefyd o'n tudalennau gwe yn www.cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K.

## Cynllun After LIFE

Mae'r Cynllun AfterLIFE yn cael ei derfynu ar hyn o bryd. Bydd y cynllun yn disgrifio sut y mae'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y Rhaglen LIFE Natura 2000 yn cael eu cyflwyno gan y sefydliadau perthnasol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector. Mewn rhai achosion, gellir cyflwyno gweithredoedd trwy raglenni gwaith cyfredol, serch hynny mewn achosion eraill bydd angen datblygu ffrydiau ariannu newydd.

Mae ymgynghori ar y cynllun ar droed, am ragor o wybodaeth cysylltwch â life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 wedi cynhyrchu pennod Cymru o'r Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth y DU diwygiedig.

Mae'r Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth yn crynhoi'r gweithredoedd a blaenoriaethau allweddol a adnabuwyd gan y Rhaglen LIFE Natura 2000. Ar ôl derbyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, bydd yn cael ei gyflwyno i Ewrop ynghyd â dogfennau tebyg gan Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd Fframwaith Gweithredu â Blaenoriaeth yn hysbysu'r Undeb Ewropeaidd o'n blaenoriaethau ac anghenion cydariannu yn y DU, ac yn eu helpu i dargedu ariannu bioamrywiaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf.

## Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth (PIPs)

**Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid a Swyddogion Cadwraeth Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall yn well yr heriau y mae safleoedd Natura 2000 yn eu hwynebu yng Nghymru ac maen nhw wedi cynhyrchu Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth ar gyfer holl safleoedd Natura 2000.**

Mae Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth yn gynlluniau â blaenoriaeth, wedi'u costio sy'n crynhoi'r gweithredoedd arfaethedig sy'n ofynnol erbyn 2020 er mwyn helpu i wella cyflwr nodweddion cynefin a rhywogaeth dynodedig y safle.

Mae gweithredoedd yn mynd i'r afael â materion a risgiau blaenoriaeth uchel a chanolig sy'n atal y nodweddion rhag cyrraedd cyflwr ffafriol.

Mae Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth yn ddogfennau byw, sy'n llawn gwybodaeth wedi'u tynnu o Gronfa Ddata Gweithredoedd Cyfoeth Naturiol Cymru (sy'n dal yr holl weithredoedd dynodedig). Bydd y gronfa ddata yn parhau i gael ei diweddaru gan swyddogion cadwraeth wrth i weithredoedd cyfredol gael eu cwblhau a rhai newydd gael eu hadnabod.

**Cael mynediad at Gynlluniau Gwella â Blaenoriaeth**

***Staff Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru***: Gellir cael mynediad at y Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth trwy'r Gronfa Ddata Gweithredoedd neu trwy hypergyswllt. Os ydych chi angen arweiniad, anfonwch e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk am gyfarwyddiadau, bydd fideo hyfforddi ar gael yn fuan hefyd.

***Sefydliadau ac unigolion allanol:*** gallant ofyn am fynediad at Gynlluniau Gwella â Blaenoriaeth. Mae hyn yn gofyn am drwydded data, gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sensitif. Gall defnyddwyr cofrestredig hefyd gael mynediad at y Gronfa Ddata Gweithredoedd trwy Allrwyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Os hoffech chi fynediad at y Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth, neu os ydych chi angen adnewyddu'ch enw defnyddiwr a chyfrinair anfonwch e-bost at gillian.walker@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.


Gofynnir i ddefnyddwyr allrwyd ddiweddaru statws y gweithredoedd y mae eu sefydliad yn gyfrifol amdanynt (e.e. ar waith, wedi'u cwblhau) i sicrhau bod gennym gofnod o'r cynnydd. Os byddwch chi'n adnabod gweithredoedd newydd neu eisiau newid blaenoriaeth neu fanylion gweithred, cysylltwch â'r Swyddog Cadwraeth lleol ar gyfer y safle.

## Natura 2000 yng Nghymru

Mae 112 o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru, yn gorchuddio ymron i 7% o ardal tir Cymru ac ymron i 36% o foroedd Cymru. **Mae'r rhwydwaith hwn yn cynrychioli'r gorau oll o fywyd gwyllt a threftadaeth naturiol Cymru.**

Safleoedd Natura 2000 yw conglfaen cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnig y lefel uchaf o amddiffyniad i'r gorau o'n bywyd gwyllt, a chyflwyno ein rhwymedigaethau cyfreithiol Ewropeaidd.

Mae 123 o wahanol nodweddion cynefin a rhywogaeth gwahanol wedi'u dynodi o dan Natura 2000 yng Nghymru gan gynnwys cyforgors actif, coetir derw gorllewinol, riffiau, morlo llwyd, pâl a bod tinwen.



## Cynlluniau Gweithredu Thematig

Mae'r Rhaglen LIFE Natura 2000 wedi creu 11 o Gynlluniau Gweithredu Thematig sy'n adnabod gweithredoedd strategol blaenoriaeth i fynd i'r afael â materion a risgiau o bwys sy'n cael effaith niweidiol ar nodweddion Natura 2000 ar draws y rhwydwaith.

- **Rheoli mynediad a hamdden**
- **Llygredd Aer: Dyddodiad nitrogen**
- **Newid hinsawdd a darnio cynefin**
- **Llygredd dŵr gwasgaredig**
- **Rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol**
- **Rheoli pori a da byw**
- **Rhywogaethau goresgynnol a phathogenau**
- **Newidiadau dynol i amodau hydrolig**
- **Sbwriel morol**
- **Pysgodfeydd morol**
- **Rheoli Coetir**

Mae'r gweithredoedd wedi'u hadnabod yn sgil gweithdai gyda gweithwyr proffesiynol gydag arbenigedd yn y maes, mewn ymgynghoriad gyda sefydliadau rhanddeiliaid.



## Cynlluniau Gweithredu Trawsbynciol

Mae set o weithredoedd trawsbynciol hefyd wedi'u hadnabod sy'n berthnasol ar draws rhwydwaith Natura 2000. Y rhain yw:

- **Cyfathrebu ac addysg**
- **Cyllid ac ariannu**
- **Deddfwriaeth a pholisi**
- **Integreiddio**
- **Ymchwiliadau**

Bydd y Cynlluniau Gweithredu Thematig a chynlluniau gweithredu trawsbynciol ar gael yn fuan ar ein gwe dudalennau cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K neu e-bost at life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Gwybodaeth Bellach

Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 bellach wedi'i chwblhau ac mae allbynnau'r prosiect yn cael eu datblygu fel rhan o waith prif ffrwd parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru. Serch hynny, gallwch barhau i gysylltu â ni ar life2000@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu trwy'r llinell ymholiadau cyffredinol ar 03000 0653000. Am ymholiadau safle, cysylltwch â'r Swyddog Cadwraeth lleol (manylion cyswllt ar gael o'r llinell ymholi uchod).

Mae gwybodaeth ac adroddiadau pellach ar gael hefyd ar ein gwefan: www.cyfoethnaturiol.cymru/LIFEN2K, a dilynwch ni ar Facebook neu Twitter.



*Yn olaf, dymuna Dîm LIFE N2K y gorffennol a'r presennol ddiolch i chi gyd am eich cyfraniadau a mewnbwn yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Hwyl fawr a diolch i'r holl bysgod, mamaliaid, pryfed, a chramenogion.*

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

NATURA 2000

**Cefnogir gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd: N2K Wales, LIFE 11 NAT/UK/385**